

## HYSBYSIAD PREIFATRWYDD ELUSEN CANSER SYR GARETH EDWARDS

### 1. BETH SYDD WEDI'I GYNNWYS YN YR HYSBYSIAD PREIFATRWYDD HWN?

Nod Elusen Canser Syr Gareth Edwards (Yr 'Elusen') yw cefnogi pobl ifanc rhwng 15 a 35 oed yng Nghymru sy'n ei chael hi'n anodd talu costau wedi'u hachosi gan eu diagnosis canser, drwy roi grantiau i'r rhai sy'n gymwys. Hefyd, mae'r Elusen yn gobeithio codi ymwybyddiaeth o'r materion sy'n effeithio ar y grŵp oedran penodol hwn a chyfeirio pobl ifanc at elusennau a mathau eraill o help sydd ar gael iddyn nhw.

Yr Elusen yw'r rheolwr data ar gyfer yr holl ddata personol sydd gan yr Elusen. Cewch ragor o wybodaeth amdanon ni [yma](#).

Mae'r ddogfen hon (ein 'hysbysiad preifatrwydd') yn nodi'r wybodaeth sy'n gysylltiedig â sut mae'r Elusen yn defnyddio'r wybodaeth bersonol am yr unigolion rydyn ni'n ymwneud â nhw, gan gynnwys aelodau'r Elusen, pobl sy'n rhoi rhoddion i'r Elusen, defnyddwyr ein gwefan. Hefyd mae'n nodi'r wybodaeth am yr hawliau sydd gan unigolion mewn perthynas â'u gwybodaeth bersonol ac amryw faterion sy'n ofynnol o dan y ddeddf diogelu data.

Yn benodol, mae'r hysbysiad diogelwch hwn yn rhoi gwybodaeth i unigolion am sut gallan nhw wrthwynebu ein defnydd o'u gwybodaeth bersonol, sut gallan nhw dynnu'n ôl unrhyw ganiatâd y maen nhw wedi'i roi i ni i'n galluogi i brosesu eu gwybodaeth bersonol a sut gallan nhw wneud cwyn.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn cynnwys yr adrannau canlynol:

<b>PENNAWD ADRAN</b>	<b>RHIF TUDALEN</b>
I BWY MAE'R HYSBYSIAD PREIFATRWYDD HWN YN BERTHNASOL?	3
BETH YW EIN HYMAGWEDD AT BREIFATRWYDD?	4
SUT BYDDWN NI'N DEFNYDDIO EICH GWYBODAETH BERSONOL?	6
YMGYSYLLTU Â NI AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL	17
GWYBODAETH AM SUT A PHRYD RYDYN NI'N DEFNYDDIO DULL GWNEUD PENDERFYNIADAU AWTOMATAIDD	17
PRYD BYDDWN NI'N RHANNU EICH GWYBODAETH BERSONOL AG ERAILL?	17
YR AMGYLCHIADAU LLE BYDDWN NI'N ANFON EICH GWYBODAETH BERSONOL Y TU ALLAN I'R DU	23
SUT BYDDWN NI'N CADW EICH GWYBODAETH BERSONOL YN DDIOGEL?	19
PA HAWLIAU SYDD GENNYCH O DAN Y DDEDDF DIOGELU DATA?	19
PRYD A SUT GALLWCH CHI DYNNU EICH CYDSYNIAD YN ÔL?	23
SUT GALLWCH CHI GYSYLLTU Â NI A PHWY SY'N GORUCHWYLIO EIN BOD YN CYDYMFFURFIO Â'R DDEDDF DIOGELU DATA?	23
SUT GALLWCH CHI GWYNO AM EIN DEFNYDD NI O'CH GWYBODAETH BERSONOL CHI?	23
SUT BYDDWN NI'N RHOI GWYBOD I CHI AM UNRHYW NEWIDIADAU I'N HYSBYSIAD DIOGELWCH?	24

## **2. I BWY MAE'R HYSBYSIAD PREIFATRWYDD HWN YN BERTHNASOL?**

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn berthnasol i'r canlynol:

- Ymgeiswyr am Grantiau;
- Ymddiriedolwyr;
- Rhoddwyr;
- Unigolion sy'n cysylltu â ni gydag ymholiadau neu gwynion;
- Defnyddwyr ein gwefan;
- Unigolion rydyn ni'n eu cyflogi i ddarparu gwasanaethau i ni. ac
- Unigolion sy'n ymgysylltu â ni ar y cyfryngau cymdeithasol.

### 3. BETH YW EIN HYMAGWEDD AT BREIFATRWYDD?

Mae eich preifatrwydd chi'n eithriadol o bwysig i ni ac rydyn ni eisiau i chi deimlo'n hyderus bod eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel yn ein dwylo ni.

Dim ond yn unol â'r ddeddf diogelu data sy'n berthnasol i'r DU y byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth bersonol o dro i dro.

O dan y ddeddf diogelu data, pan fyddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth bersonol, byddwn ni'n gweithredu fel rheolwr data. Yn y bôn, ystyr hyn yw y byddwn ni'n gwneud penderfyniadau ynghylch sut rydyn ni eisiau defnyddio eich gwybodaeth bersonol a pham.

Isod, mae crynodeb o'r prif reolau sy'n berthnasol i ni o dan y ddeddf diogelu data pan fyddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth bersonol:

1.	Mae'n rhaid i ni fod yn eglur ynghylch sut rydyn ni'n bwriadu defnyddio eich gwybodaeth bersonol ac mae'n rhaid i ni ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol yn deg. Mae rhoi gwybodaeth preifatrwydd i unigolion (fel yr hysbysiad preifatrwydd hwn) yn un agwedd sy'n ein helpu ni i gyflawni'r rheidrwydd hwn.
2.	Rydyn ni ond yn cael defnyddio eich gwybodaeth bersonol os yw un o'r rhesymau cyfreithiol sydd yn y ddeddf diogelu data yn berthnasol. Mae'r rhesymau cyfreithiol hyn yn cynnwys y canlynol: <ul data-bbox="352 1059 1327 1570" style="list-style-type: none"><li data-bbox="352 1059 1327 1126">• Rydych chi wedi cydsynio i ni ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol;</li><li data-bbox="352 1160 1327 1227">• Mae angen i ni ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol er mwyn cyflawni contract rhyngon ni;</li><li data-bbox="352 1261 1327 1462">• Mae gennym ni (neu rywun arall) reswm cyfreithlon dros fod ag angen defnyddio eich gwybodaeth bersonol ac ni fyddai'n annheg i chi petai eich gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio at y diben hwn. Yr enw ar hyn yw bod â 'buddiant dilys' ac mae'n rhaid i ni bwysu a mesur eich hawliau chi a'n buddiant ni cyn y gallwn ni ddibynnu ar y rheswm hwn;</li><li data-bbox="352 1496 1327 1563">• Mae angen i ni ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol er mwyn cydymffurfio â'r ddeddf.</li></ul>
3.	Dim ond mathau penodol o wybodaeth bersonol sensitif y cawn ni ei defnyddio (fel gwybodaeth am iechyd, tarddiad hiliol neu grefydd person) os gallwn ni hefyd fodloni un o'r amodau sydd yn y ddeddf diogelu data. Mae'r amodau hyn yn cynnwys y canlynol: <ul data-bbox="352 1765 1327 1966" style="list-style-type: none"><li data-bbox="352 1765 1327 1832">• Rydych chi wedi rhoi eich caniatâd penodol i ni ddefnyddio'r wybodaeth;</li><li data-bbox="352 1865 1327 1966">• Mae angen i ni ddefnyddio'r wybodaeth yn ystod gweithgareddau dilys yr Elusen ac nid yw'r wybodaeth yn cael ei datgelu y tu allan i'r Elusen;</li></ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rydych chi wedi gwneud y wybodaeth yn hysbys;</li> <li>• Mae angen i ni ddefnyddio'r wybodaeth er mwyn diogelu eich buddiannau allweddol i fywyd neu fuddiannau allweddol i fywyd person arall;</li> <li>• Mae angen i ni ddefnyddio'r wybodaeth mewn cysylltiad â hawliad cyfreithiol.</li> </ul>
<b>4.</b>	Cawn ni rannu eich gwybodaeth bersonol ag eraill dim ond os oes gennym reswm cyfreithiol dros wneud hynny (gweler pwynt 2 uchod) a/neu (mewn perthynas â gwybodaeth sensitif) rydyn ni'n gallu bodloni amod (gweler pwynt 3 uchod).
<b>5.</b>	Yn gyffredinol, cawn ni ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol at y dibenion penodol rydyn ni wedi sôn wrthoch chi amdany'n nhw yn unig. Os ydyn ni eisiau defnyddio eich gwybodaeth bersonol at ddibenion eraill, mae angen i ni gysylltu â chi eto i ddweud wrthoch chi am hyn.
<b>6.</b>	Mae'n rhaid i ni beidio â bod â rhagor o wybodaeth bersonol nag sydd ei hangen at y dibenion rydyn ni wedi sôn wrthy'ch chi amdany'n nhw ac mae'n rhaid i ni beidio â chadw eich gwybodaeth bersonol am fwy o amser nag sy'n angenrheidiol at y diben hwnnw (y 'cyfnod cadw' yw'r enw ar hyn). Hefyd, mae'n rhaid i ni waredu unrhyw wybodaeth nad oes ei hangen arnom mwyach mewn ffordd ddiogel.
<b>7.</b>	Mae'n rhaid i ni sicrhau bod mesurau diogelwch priodol gennym yn eu lle er mwyn diogelu eich gwybodaeth bersonol.
<b>8.</b>	Mae'n rhaid i ni weithredu'n unol â'ch hawliau o dan y ddeddf diogelu data (mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau i'w cael o dan yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn ac ar <a href="http://www.ico.org.uk">www.ico.org.uk</a> )
<b>9.</b>	Mae'n rhaid i ni beidio â throsglwyddo eich gwybodaeth bersonol y tu allan i'r DU oni bai bod mesurau diogelwch penodol yn eu lle. Un mesur diogelwch o'r fath yw bod gwybodaeth bersonol yn cael ei throsglwyddo dim ond i wlad sydd wedi'i chymeradwyo gan Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth y DU fel un sydd â lefel ddigonol o gyfraith diogelu data, neu os nad yw hyn yn berthnasol, byddwn yn gofyn am eich cydsyniad i drosglwyddo eich gwybodaeth bersonol y tu allan i'r DU.

#### 4. SUT BYDDWN NI'N DEFNYDDIO EICH GWYBODAETH BERSONOL?

Bydd sut byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth bersonol, y rhesymau cyfreithiol y byddwn ni'n dibynnu arnyn nhw, pa mor hir byddwn ni'n cadw eich gwybodaeth bersonol a manylion eraill yn dibynnu ar bwy ydych chi a pham mae angen eich gwybodaeth bersonol arnon ni yn y lle cyntaf.

Yn yr adran hon, rydyn ni'n rhoi gwybodaeth breifatrwydd benodol sy'n ymwneud â'r categorïau gwahanol o unigolion y mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn berthnasol iddyn nhw:

##### Ymgeiswyr am Grantiau

<b>Pa wybodaeth bersonol y byddwn ni'n ei defnyddio</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Eich enw;</li><li>• Eich manylion cyswllt (fel eich cyfeiriad postio, eich rhif ffôn a/neu eich cyfeiriad ebost);</li><li>• Eich rhywedd</li><li>• Eich dyddiad geni;</li><li>• Manylion eich cyfrif banc</li><li>• Eich data iechyd gan gynnwys manylion eich diagnosis cancer (gan gynnwys dyddiadau a manylion cyswllt y ganolfan sy'n rhoi triniaeth i chi, eich Nyrs Ganser Arbenigol ('CNS'), eich gweithiwr cymdeithasol, gweithiwr cymorth a/neu weithiwr ieuencid)</li></ul>
<b>Sut byddwn ni'n cael y wybodaeth bersonol</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Byddwch chi'n rhoi'r wybodaeth i'r Elusen ar ei gwefan, wrth i chi wneud cais am grant.</li></ul>
<b>At ba ddibenion y byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth bersonol</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth bersonol at ddibenion gweinyddol;</li><li>• Byddwn ni'n defnyddio manylion eich cyfrif banc mewn perthynas ag unrhyw grant rydyn ni'n ei roi i chi.</li><li>• Byddwn ni'n cofnodi eich enw a'r ffaith eich bod yn ymgeisydd am grant gan yr Elusen;</li><li>• Byddwn ni'n defnyddio unrhyw wybodaeth am eich iechyd i gael geirda ac i wirio eich diagnosis</li></ul>

	<p>er mwyn penderfynu a ddylen ni roi grant, byddwn yn cael eich cydsyniad i wneud hynny ar yr adeg y byddwch chi'n gwneud cais am grant.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Efallai y byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth, gan gynnwys eich data personol sensitif, wrth gyhoeddi erthyglau, cylchlythyrau o fideos ar ein gwefan ac ar gyfryngau eraill (gweler yr adran isod i gael rhagor o fanylion am hyn).</li> </ul>
<p><b>Â phwy rydyn ni'n rhannu eich gwybodaeth bersonol</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Efallai byddwn ni'n rhannu eich enw, eich cyfeiriad a'ch data iechyd â'ch ysbyty lleol, eich CNS, a/neu eich gweithiwr cymdeithasol, eich gweithiwr cymorth er mwyn gwirio eich diagnosis a dyfarnu'r grant i chi.</li> <li>Efallai bydd eich data'n cael eu rhannu ar-lein mewn erthyglau, cylchlythyrau a fideos. Byddwn ni'n cael eich cydsyniad cyn cyhoeddi. Gweler yr adran isod am gylchlythyrau, erthyglau a fideos i gael rhagor o fanylion.</li> </ul>
<p><b>Yr amgylchiadau lle byddwn ni'n anfon eich gwybodaeth bersonol y tu allan i'r DU</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dydyn ni ddim yn rhagweld y byddwn ni'n anfon eich data y tu allan i'r DU neu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA), fodd bynnag, os bydd angen naill ai i ni neu i'n prosesyddion data anfon eich Data y tu allan i'r DU neu'r EEA, yna byddwn ni'n sicrhau bod camau digonol yn cael eu gwneud er mwyn sicrhau'r data a diogelu eich hawliau fel testun data.</li> </ul>
<p><b>Y rhesymau cyfreithiol rydyn ni'n dibynnu arnyn nhw</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Rydyn ni'n dibynnu ar y ffaith bod prosesu eich gwybodaeth er mwyn hwyluso rhoi grant gan yr Elusen yn fuddiant dilys i'r Gymdeithas ac yn angenrheidiol.</li> <li>Byddwn ni'n cael data personol sensitif yn rhan o'ch cais, gan gynnwys data am eich iechyd. Byddwn ni'n prosesu'r</li> </ul>

	<p>wybodaeth honno dim ond lle mae'n rhan o'n gweithgareddau dilys a fydd hi ddim yn cael ei throsglwyddo'r tu allan i'r Elusen heb eich cydsyniad chi. Byddwn ni'n gofyn i chi roi eich cydsyniad yn rhan o'r cais.</p>
<p><b>Pa mor hir rydyn ni'n cadw'r wybodaeth bersonol a pham</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd eich manylion yn cael eu cadw dros y cyfnod sydd ei angen ar yr Elusen i wirio eich diagnosis ac am gyfnod o 7 mlynedd ar ôl penderfyniad yr Elusen.</li> <li>• Efallai bydd erthyglau, cylchlythyrau a fideos yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol ar ein gwefan. Gweler yr adran isod am erthyglau, cylchlythyrau a fideos</li> </ul>
<p><b>Canlyniadau peidio â rhoi /gadael i ni gael gwybodaeth bersonol</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Os nad ydyn ni'n cael eich enw, eich manylion cyswllt a data personol sensitif, fyddwn ni ddim yn gallu prosesu eich cais am grant.</li> <li>• Os nad ydych chi'n gallu rhoi eich cydsyniad i ni rannu eich data personol sensitif y tu allan i'r Elusen, efallai na fyddwn ni'n gallu gwirio eich cais a byddwn ni'n methu prosesu'r grant i chi.</li> </ul>

### Ymddiriedolwyr

<p><b>Pa wybodaeth bersonol y byddwn ni'n ei defnyddio</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Eich enw;</li> <li>• Eich manylion cyswllt (fel eich cyfeiriad postio, eich rhif ffôn a/neu eich cyfeiriad ebost);</li> <li>• Eich rhywedd</li> <li>• Eich dyddiad geni;</li> <li>• Manylion eich cyfrif banc</li> <li>• Eich safbwyntiau</li> <li>• Eich record pleidleisio yng</li> </ul>
--	--



	<p>nghyfarfodydd yr ymddiriedolwyr</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'n bosibl, yn ystod y cyfnod y byddwch yn ymddiriedolwr, y byddwn ni'n cael data personol sensitif amdanoch chi, gan gynnwys data iechyd.</li> </ul>
<b>Sut byddwn ni'n cael y wybodaeth bersonol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwch chi'n rhoi'r wybodaeth i'r Elusen yn ysgrifenedig neu ar lafar.</li> </ul>
<b>At ba ddibenion y byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth bersonol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth bersonol at ddibenion gweinyddol;</li> <li>• Byddwn ni'n defnyddio manylion eich cyfrif banc mewn perthynas ag unrhyw daliadau sy'n ddyledus i chi.</li> <li>• Byddwn ni'n defnyddio eich record pleidleisio a'ch safbwyntiau wrth weinyddu'r Elusen ac er mwyn ei llywodraethu'n dda.</li> <li>• Byddwn ni'n defnyddio unrhyw ddata personol sensitif gyda'ch cydsyniad chi'n unig.</li> </ul>
<b>Â phwy rydyn ni'n rhannu eich gwybodaeth bersonol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'n bosibl y byddwn ni'n rhannu eich data personol, gan gynnwys eich enw a'ch cyfeiriad â'r Comisiwn Elusennau neu reoleiddiwr elusennau tebyg o dro i dro.</li> <li>• Mae'n bosibl y byddwn ni'n rhannu eich enw a'ch cyfeiriad a'ch statws fel ymddiriedolwr ar ein gwefan, yn ein cylchlythyrau ac ar y cyfryngau cymdeithasol.</li> </ul>
<b>Yr amgylchiadau lle byddwn ni'n anfon eich gwybodaeth bersonol y tu allan i'r DU</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dydyn ni ddim yn rhagweld y byddwn ni'n anfon eich data y tu allan i'r DU neu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA), fodd bynnag, os bydd angen naill ai i ni neu ein proseswyr data anfon eich Data y tu allan i'r DU neu'r EEA, yna byddwn ni'n sicrhau bod camau digonol yn cael eu gwneud er mwyn</li> </ul>

	sicrhau'r data a diogelu eich hawliau fel testun data.
<b>Y rhesymau cyfreithiol rydyn ni'n dibynnu arnyn nhw</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Rydyn ni'n dibynnu ar y ffaith bod prosesu eich gwybodaeth er mwyn hwyluso gweinyddu a llywodraethu'r Elusen yn dda yn fuddiant dilys i'r Gymdeithas ac yn angenrheidiol.</li> <li>Mae'n bosibl y byddwn ni'n cael data personol sensitif oddi wrthoch chi o bryd i'w gilydd. Byddwn ni'n prosesu'r wybodaeth honno dim ond lle mae'n rhan o'n gweithgareddau dilys a fydd hi ddim yn cael ei throsglwyddo'r tu allan i'r Elusen heb eich cydsyniad chi.</li> </ul>
<b>Pa mor hir rydyn ni'n cadw'r wybodaeth bersonol a pham</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd eich manylion yn cael eu cadw drwy gydol y cyfnod rydych chi'n Ymddiriedolwr yr Elusen ac am gyfnod o 7 mlynedd wedi hynny.</li> </ul>
<b>Canlyniadau peidio â rhoi /gadael i ni gael gwybodaeth bersonol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Os nad yw eich enw a'ch manylion cyswllt a data personol eraill sydd wedi'u rhestru yn yr adran hon yn cael eu rhoi, fyddwch chi ddim yn gallu dod yn Ymddiriedolwr i'r Elusen neu weithredu fel ymddiriedolwr.</li> </ul>

## **RHODDWYR**

<b>Pa wybodaeth bersonol y byddwn ni'n ei defnyddio</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Eich enw;</li> <li>Eich manylion cyswllt (fel eich cyfeiriad postio, eich rhif ffôn a/neu eich cyfeiriad ebost);</li> <li>Manylion eich cyfrif banc</li> <li>A ydych chi'n talu treth yn y DU;</li> <li>Eich cysylltiad â'r Elusen.</li> </ul>
<b>Sut byddwn ni'n cael y wybodaeth bersonol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Rydych chi'n rhoi'r wybodaeth yn uniongyrchol i'r Elusen.</li> </ul>
<b>At ba ddibenion y byddwn ni'n</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Byddwn ni'n defnyddio'r</li> </ul>

<b>defnyddio'r wybodaeth bersonol</b>	wybodaeth bersonol er mwyn prosesu eich rhodd (p'un a yw'n rhodd untro neu'n rhodd reolaidd) ac i gael unrhyw ad-daliadau treth drwy rodd cymorth.
<b>Â phwy rydyn ni'n rhannu eich gwybodaeth bersonol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn ni'n rhannu eich gwybodaeth â CTheF (HMRC) er mwyn cael unrhyw ad-daliadau treth rhodd cymorth, lle y bo'n berthnasol.</li> </ul>
<b>Y rhesymau cyfreithiol rydyn ni'n dibynnu arnyn nhw</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'n fuddiant dilys i ni brosesu'r wybodaeth bersonol er mwyn prosesu eich rhodd ac i gael unrhyw ad-daliadau treth. Mae'r rhoddion hyn yn galluogi'r Elusen i hyrwyddo ei nodau a'i buddiant. Drwy wneud rhodd, rydych chi'n cefnogi'r nodau hynny.</li> </ul>
<b>Pa mor hir rydyn ni'n cadw'r wybodaeth bersonol a pham</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd eich manylion cyswllt yn cael eu cadw tra byddwch chi'n rhoi ac am 7 mlynedd wedi hynny.</li> </ul>
<b>Canlyniadau peidio â rhoi /gadael i ni gael gwybodaeth bersonol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Os na allwch chi roi eich enw, eich cyfeiriad a manylion eich cyfrif banc, fyddwn ni ddim yn gallu prosesu unrhyw rodd heblaw am rodd arian parod neu siec.</li> </ul>

### **UNIGOLION SY'N CYSYLLTU Â NI GYDAG YMHOLIADAU NEU GWYNIION**

<b>Pa wybodaeth bersonol y byddwn ni'n ei defnyddio</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Eich enw;</li> <li>• Eich manylion cyswllt (fel eich rhif ffôn a/neu eich cyfeiriad ebost);</li> <li>• Manylion eich ymholiad;</li> <li>• Eich cysylltiad â'r Elusen (a fydd yn datgelu data'n ymwneud â'ch iechyd), os yw'n berthnasol.</li> </ul>
---	--

<b>Sut byddwn ni'n cael y wybodaeth bersonol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Byddwch chi'n ei rhoi pan fyddwch chi'n cysylltu â ni (e.e. wrth wneud galwad ffôn neu anfon ebost aton ni).</li> </ul>
<b>At ba ddibenion y byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth bersonol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth bersonol i ymdrin â'ch ymholiad/cwyn;</li> <li>Byddwn ni'n gwneud cofnod o'ch ymholiad/cwyn at ddibenion gweinyddol mewnol.</li> </ul>
<b>Y rhesymau cyfreithiol rydyn ni'n dibynnu arnyn nhw</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae defnyddio eich gwybodaeth bersonol er mwyn ymdrin â'ch ymholiad/cwyn yn seiliedig ar ein buddiant dilys o ran sicrhau bod ein helusen yn cael ei rhedeg yn effeithlon ac yn effeithiol;</li> <li>Mae cadw cofnod o'ch ymholiad yn seiliedig ar ein buddiant dilys o ran sicrhau y gallwn redeg elusen effeithlon.</li> <li>Lle mae manylion eich ymholiad yn datgelu data sy'n ymwneud â'ch iechyd oherwydd eich perthynas neu gysylltiad â'r Elusen, byddwn ni'n prosesu'r wybodaeth honno dim ond lle mae'n rhan o'n gweithgareddau dilys a fydd hi ddim yn cael ei throsglwyddo'r tu allan i'r Elusen heb eich cydsyniad chi.</li> </ul>
<b>Pa mor hir rydyn ni'n cadw'r wybodaeth bersonol a pham</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r cofnodion am eich ymholiad/cwyn a'r ddogfennaeth berthnasol yn cael eu cadw tan i'r mater gael ei ddatrys yn foddhaol i bawb.</li> </ul>

### **UNIGOLION SY'N DEFNYDDIO EIN GWEFAN**

<b>Pa wybodaeth bersonol y byddwn ni'n ei defnyddio</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwybodaeth dechnegol, gan gynnwys y cyfeiriad protocol dros y rhyngwyd a ddefnyddiwyd i gysylltu eich</li> </ul>
---	---

	<p>cyfrifiadur â'r rhyngwrwyd, math a fersiwn y porwr, gosodiad parth amser, mathau a fersiynau ategion y porwr, y plattform a'r system weithredu;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwybodaeth am eich ymweliad, gan gynnwys yr 'Uniform Resource Locators' ("URL") llawn, y llif clicio i'n gwefan, drwyddi ac oddi wrthi (gan gynnwys y dyddiad a'r amser), amseroedd ymateb y tudalennau, gwallau lawrlwytho, hyd yr ymweliad â thudalennau penodol a'r dulliau a ddefnyddiwyd i bori o'r dudalen.</li> <li>• Gwybodaeth amdanoch chi fel ymgeisydd, os ydych chi'n dewis gwneud cais am grant. Gweler adran yr Ymgeiswyr i gael rhagor o wybodaeth.</li> </ul>
<p><b>Sut byddwn ni'n cael y wybodaeth bersonol</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rydyn ni'n cael peth o'r wybodaeth yn awtomatig bryd bynnag rydych chi'n defnyddio ein gwefan ar ffurf anhysbys;</li> <li>• Rydyn ni'n casglu peth o'r wybodaeth bob tro rydych chi'n defnyddio ein gwefan drwy ein defnydd o gwcis. Dyma rhai –</li> <li>• Cwci Google Analytics</li> <li>• Cwci Session Tracking</li> <li>• Cwci laith</li> </ul>
<p><b>At ba ddibenion y byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth bersonol</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth i'n helpu i wella ein gwefan drwy'r amser.</li> <li>• Y wybodaeth sy'n cael ei chasglu drwy ein defnydd o gwcis.</li> </ul>
<p><b>Y rhesymau cyfreithiol rydyn ni'n dibynnu arnyn nhw</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r wybodaeth rydyn ni'n ei chasglu a'i defnyddio yn seiliedig ar ein buddiant dilys o ran sicrhau bod ein gwefan yn gyfeillgar i ddefnyddwyr ac yn</li> </ul>

	apelio at y defnyddwyr.
<b>Pa mor hir rydyn ni'n cadw'r wybodaeth bersonol a pham</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Does gennym ni ddim gwybodaeth bersonol y mae'n bosibl ei hadnabod ond rydyn ni'n cadw data am y defnydd o'r wefan ar ffurf anhysbys. Mae'r data'n cael eu cadw'n barhaol ar blatfform Google Analytics.</li> </ul>
<b>Canlyniadau peidio â rhoi /gadael i ni gael gwybodaeth bersonol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Os ydych chi'n analluogi ein Cwcis, efallai na fyddwch chi'n gallu defnyddio rhannau/swyddogaethau penodol o'n gwefan.</li> </ul>

**UNIGOLION SY'N YMDDANGOS YN EIN CYLCHLYTHYRAU NEU ERTHYGLAU NEU FIDEOS (GAN GYNNWYS AR-LEIN)**

<b>Pa wybodaeth bersonol y byddwn ni'n ei defnyddio</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Eich enw;</li> <li>Eich lleoliad daearyddol;</li> <li>Eich cysylltiad â'r Elusen, sy'n debygol o ddatgelu data sy'n berthnasol i'ch iechyd;</li> <li>Manylion personol eraill rydych chi'n eu rhoi i ni fel rhan o'ch stori, gan gynnwys data personol sensitif, fel data am eich iechyd.</li> </ul>
<b>Sut byddwn ni'n cael y wybodaeth bersonol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Byddwch chi'n ei rhoi pan fyddwch chi'n cytuno i ymddangos mewn cylchlythyr neu erthygl a/neu ar ein gwefan.</li> </ul>
<b>At ba ddibenion y byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth bersonol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth bersonol (gan gynnwys gwybodaeth bersonol sensitif) sydd yn yr erthygl/cylchlythyr/fideo;</li> <li>Bydd yr erthygl/cylchlythyr/fideo yn cael ei c(h)hoeddi drwy ebost, a/neu mewn print, a/neu ar ein gwefan.</li> </ul>
<b>Y rhesymau cyfreithiol rydyn ni'n dibynnu arnyn nhw</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r defnydd o'ch gwybodaeth bersonol i ysgrifennu a chyhoeddi'r</li> </ul>

	cylchlythyr/erthygl/fideo yn seiliedig ar eich cydsyniad chi.
<b>Pa mor hir rydyn ni'n cadw'r wybodaeth bersonol a pham</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae erthyglau, cylchlythyrau a fideos ar gael ar ein gwefan am gyfnod amhenodol.</li> </ul>
<b>Canlyniadau peidio â rhoi /gadael i ni gael gwybodaeth bersonol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Fyddwn ni dim yn gallu cyhoeddi unrhyw erthygl, cylchlythyr neu fideo gyda'ch data personol sensitif heb eich cydsyniad chi.</li> </ul>

### **UNIGOLION RYDYN NI'N EU CYFLOGI I DDARPARU GWASANAETHAU I NI**

<b>Pa wybodaeth bersonol y byddwn ni'n ei defnyddio</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Eich enw a manylion cyswllt;</li> <li>Manylion eich cyfrif banc.</li> </ul>
<b>Sut byddwn ni'n cael y wybodaeth bersonol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Byddwch chi'n ei rhoi pan fyddwch chi'n cytuno i roi gwasanaethau i ni.</li> </ul>
<b>At ba ddibenion y byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth bersonol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Er mwyn dod i gytundeb â chi, er mwyn cysylltu â chi, er mwyn gweinyddu'r cytundeb am wasanaethau ac er mwyn eich talu chi.</li> </ul>
<b>Y rhesymau cyfreithiol rydyn ni'n dibynnu arnyd nhw</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd angen defnyddio eich gwybodaeth bersonol i ddechrau cytundeb am wasanaethau, ar gyfer gohebiaeth yn gysylltiedig â'r gwasanaethau a'r materion cysylltiedig ac i wneud taliadau am wasanaethau er mwyn cymryd camau cyn dod i gytundeb â chi er mwyn dechrau contract â chi ac er mwyn gweithredu'r contract rhyngon ni.</li> </ul>
<b>Pa mor hir rydyn ni'n cadw'r wybodaeth bersonol a pham</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Byddwn ni'n cadw eich gwybodaeth bersonol tra byddwch chi'n rhoi gwasanaethau ac am 6 blynedd, felly rhag ofn bydd unrhyw anghytundeb contractiol.</li> </ul>
<b>Canlyniadau peidio â rhoi /gadael i ni gael gwybodaeth bersonol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Heb eich gwybodaeth bersonol, fyddwn ni ddim yn gallu eich cyflogi i roi gwasanaethau i ni a fyddwn ni ddim yn gallu eich talu</li> </ul>

	chi chwaith.
--	--------------



## 5. YMGYSYLLTU Â NI AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Bydd unrhyw bostiadau neu sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol rydych chi'n eu hanfon aton ni (ar dudalen Facebook neu Instagram yr Elusen, er enghraifft) yn cael eu rhannu o dan amodau'r plattform cyfryngau cymdeithasol perthnasol (e.e. Facebook, Instagram neu Twitter) y maen nhw wedi'u hysgrifennu arno a gallen nhw gael eu gwneud yn hysbys. Pobl eraill, nid ni, sy'n rheoli'r plattformau hyn. Nid ni sy'n gyfrifol am rannu o'r math hwn. Felly, cyn i chi wneud sylwadau am unrhyw beth, dylech chi edrych dros amodau a thelerau a pholisïau preifatrwydd y plattformau cyfryngau cymdeithasol rydych chi'n eu defnyddio. O wneud hynny, byddwch chi'n deall sut maen nhw'n defnyddio eich gwybodaeth chi, pa wybodaeth gysylltiedig â chi y byddan nhw'n ei gwneud yn hysbys, a sut gallwch chi eu hatal nhw rhag gwneud hynny os ydych chi'n anhapus am y peth.

## 6. GWYBODAETH AM WNEUD PENDERFYNIADAU AWTOMATAIDD

Mae gwneud penderfyniadau awtomataidd yn digwydd pan mae system electronig yn defnyddio gwybodaeth bersonol i wneud penderfyniad heb i berson ymyrryd.

Dydyn ni ddim yn gwneud unrhyw weithgareddau prosesu sy'n cynnwys gwneud penderfyniadau amdanoch chi gan ddefnyddio dulliau awtomataidd.

## 7. PRYD BYDDWN NI'N RHANNU EICH GWYBODAETH BERSONOL AG ERAILL

Weithiau, bydd angen i ni rannu eich gwybodaeth bersonol ag eraill. Mae'r adran hon yn rhoi gwybod i chi â phwy byddwn ni'n rhannu eich gwybodaeth bersonol a pham. Hefyd, mae'n dweud wrthoch chi am ein rhesymau cyfreithiol dros wneud hynny o dan y ddeddf diogelu data a'r camau y byddwn ni'n eu gwneud i warchod eich gwybodaeth bersonol.

Nodwch na fyddwn ni byth yn gwerthu eich gwybodaeth bersonol i drydydd parti.

## PARTNERIAID GWASANAETHAU

<b>Gwybodaeth am ein partneriaid gwasanaethau</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Ein partneriaid gwasanaethau yw'r busnesau eraill rydyn ni'n gwneud contractau â nhw. Maen nhw'n cynnwys:<ul style="list-style-type: none"><li>• Cyflenwyr ac isgcontractwyr;</li><li>• Cyflenwyr cynhyrchion a gwasanaethau TG;</li></ul></li><li>• Dydyn ni ddim wedi cynnwys enwau ein partneriaid gwasanaethau yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn oherwydd byddwn ni'n delio â darparwyr gwasanaethau gwahanol o dro i dro. Fodd bynnag, pe hoffech chi gael rhagor o wybodaeth am unrhyw un o'n darparwyr</li></ul>
---	--

	<p>gwasanaethau cyfredol, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion ar waelod yr hysbysiad preifatrwydd hwn.</p>
<p><b>Pam mae angen i ni rannu eich gwybodaeth bersonol</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Rydyn ni'n defnyddio cyflenwyr ac isgcontractwyr i weithredu rhai agweddau ar ein contractau â'n <b>tenantiaid</b>. Er enghraifft, darparu gwasanaethau cynnal a chadw;</li> <li>Rydyn ni'n defnyddio cyflenwyr cynhyrchion a gwasanaethau TG yn gysylltiedig â chyflenwi, cynnal a chadw a/neu wella ein rhwydwaith TG.</li> </ul>
<p><b>Y rhesymau cyfreithiol rydyn ni'n dibynnu arnyn nhw</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae angen rhannu eich data personol â chyflenwyr ac isgcontractwyr er mwyn gweithredu ein contract â chi.</li> <li>Mae sut rydyn ni'n rhannu eich data personol â busnesau yn gysylltiedig â chyflenwi, cynnal a chadw a/neu wella ein rhwydwaith TG yn seiliedig ar ein buddiant dilys er mwyn sicrhau bod ein helusen yn gallu gweithredu'n briodol ac yn effeithlon a bod ein rhwydwaith TG yn ddiogel.</li> </ul>

### **MATHAU ERAILL O DRYDYDD PARTI**

Yn ogystal â'r sefyllfaoedd a ddisgrifiwyd uchod, mae'n bosibl y bydd angen i ni rannu eich gwybodaeth bersonol â thrydydd parti o dan yr amgylchiadau canlynol:

<p><b>Gofynion cyfreithiol neu reoleiddio</b></p>	<p>Weithiau, mae'n bosibl y bydd angen i ni ddatgelu eich gwybodaeth bersonol i sefydliadau fel cyrff rheoleiddio, y llysoedd a'r heddlu er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol rydyn ni'n ddarostyngedig iddyn nhw a/neu i atal twyll neu drosedd.</p>
<p><b>Cyngor proffesiynol a gweithredu cyfreithiol</b></p>	<p>Mae'n bosib y bydd angen i ni ddatgelu eich gwybodaeth bersonol i'n cyngorwyr proffesiynol (er enghraifft,</p>

	ein cyfreithwyr a'n cyfrifwyr) yn gysylltiedig â'u bod nhw'n rhoi cyngor proffesiynol.
--	--

## 8. SUT BYDDWN NI'N CADW EICH GWYBODAETH BERSONOL YN DDIOGEL?

Rydyn ni'n cymryd camau amrywiol i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol tra bydd hi gyda ni, gan gynnwys:

- Gweithredu mesurau diogelwch priodol er mwyn diogelu ein seilwaith TG;
- Gweithredu polisiau diogelwch data mewnol a hyfforddiant i aelodau o staff mewn perthynas â pholisiau fel hyn.

## 9. PA HAWLIAU SYDD GENNYCH O DAN Y DDEDDF DIOGELU DATA?

O dan y ddeddf diogelu data, mae gennych nifer o wahanol hawliau sy'n gysylltiedig â'r defnydd o'ch gwybodaeth bersonol. Mae'r tabl isod yn cynnwys crynodeb o'r hawliau hynny ac o'n rhwymedigaethau ni. Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau chi a'n rhwymedigaethau ni ar wefan ICO <https://ico.org.uk/>.

Eich hawliau	Mae hyn yn cynnwys	Beth yw ein rhwymedigaethau ni
<b>Hawl mynediad</b>	Mae hawl i gael mynediad at eich data personol a gwybodaeth atodol amrywiol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'n rhaid i ni roi copi i chi o'ch gwybodaeth bersonol a'r wybodaeth atodol arall heb ormod o oedi a beth bynnag cyn pen 1 mis ar ôl derbyn eich cais.</li> <li>• Chawn ni ddim codi tâl arnoch chi am wneud hyn oni bai am mewn amgylchiadau penodol (er enghraifft lle rydych chi'n gofyn am ragor o gopïau o'ch gwybodaeth bersonol).</li> </ul>
<b>Hawl i gael eich data</b>	• Hawl yw hon i	• Mae'n rhaid i ni

<p><b>personol wedi'u cywiro</b></p>	<p>gael eich data personol wedi'u cywiro os ydyn nhw'n anghywir neu'n anghyflawn.</p>	<p>gywiro unrhyw wybodaeth anghywir neu anghyflawn heb ormod o oedi a beth bynnag cyn pen 1 mis ar ôl derbyn eich cais.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Os ydyn ni wedi datgelu eich gwybodaeth bersonol i eraill, mae'n rhaid i ni (yn amodol ar eithriadau penodol) gysylltu â'r rhai a'i derbyniodd i roi gwybod iddyn nhw fod yn rhaid cywiro eich gwybodaeth bersonol.</li> </ul>
<p><b>Hawl i ddileu</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Hawl yw hon i gael eich data personol wedi'u dileu neu'u tynnu oddi ar ein system.</li> <li>Mae'r hawl hon yn berthnasol mewn amgylchiadau penodol yn unig (er enghraifft lle nad oes angen y wybodaeth bersonol arnon ni bellach at y dibenion y cafodd ei chasglu).</li> <li>Mae gennym hawl i wrthod dileu neu dynnu eich data personol oddi ar ein system mewn amgylchiadau penodol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Os yw'r hawl hon yn berthnasol, mae'n rhaid i ni ddileu neu dynnu eich gwybodaeth bersonol oddi ar ein system heb ormod o oedi a beth bynnag cyn pen 1 mis ar ôl derbyn eich cais.</li> <li>Os ydyn ni wedi datgelu eich gwybodaeth bersonol i eraill, mae'n rhaid i ni (yn amodol ar eithriadau penodol) gysylltu â'r rhai a'i derbyniodd i roi gwybod iddyn nhw fod yn rhaid dileu eich gwybodaeth bersonol.</li> </ul>
<p><b>Hawl i gludadwyedd</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Hawl yw hon i chi gael ac</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Os yw'r hawl hon yn berthnasol,</li> </ul>

<p><b>data</b></p>	<p>ailldefnyddio eich gwybodaeth bersonol at eich dibenion eich hun;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'n cynnwys hawl i ofyn bod eich gwybodaeth bersonol yn cael ei throsglwyddo i gorff arall (lle mae'n dechnegol ddichonadwy).</li> <li>• Mewn amgylchiadau cyfyngedig penodol yn unig mae'r hawl hon yn berthnasol.</li> </ul>	<p>mae'n rhaid i ni roi eich gwybodaeth bersonol i chi ar ffurf o ran strwythur, defnydd cyffredin a rhesymol i beiriannau,</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Eto, mae'n rhaid i ni weithredu heb ormod o oedi a beth bynnag cyn pen 1 mis ar ôl derbyn eich cais.</li> <li>• Chawn ni ddim codi tâl arnoch chi am y gwasanaeth hwn.</li> </ul>
<p><b>Hawl i wrthwynebu</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Hawl yw hon i chi wrthwynebu ein defnydd o'ch gwybodaeth bersonol.</li> <li>• Mewn amgylchiadau cyfyngedig penodol yn unig mae'r hawl yn berthnasol.</li> <li>• Cewch chi ddefnyddio'r hawl hon i herio ein defnydd o'ch gwybodaeth bersonol yn seiliedig ar ein buddiant dilys;</li> <li>• Hefyd, cewch chi ddefnyddio'r hawl hon i wrthwynebu'r defnydd o'ch gwybodaeth bersonol ar gyfer marchnata uniongyrchol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Os ydych chi'n gwrthwynebu ein bod ni'n defnyddio eich gwybodaeth bersonol ar gyfer marchnata uniongyrchol, mae'n rhaid i ni stopio defnyddio eich gwybodaeth bersonol fel hyn cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl derbyn eich cais.</li> <li>• Os ydych chi'n gwrthwynebu ffyrdd eraill rydyn ni'n defnyddio eich gwybodaeth bersonol, bydd p'un a oes yn rhaid i ni stopio defnyddio eich gwybodaeth bersonol yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol.</li> </ul>

<p><b>Hawl i wrthwynebu gwneud penderfyniadau awtomataidd</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Hawl yw hon i beidio â bod yn wrthrych penderfyniad sy'n cael ei wneud ar sail prosesu eich gwybodaeth bersonol yn awtomataidd yn unig, lle bydd y penderfyniad o dan sylw'n cael effaith gyfreithiol arnoch chi neu effaith arwyddocaol debyg.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Lle mae penderfyniad o'r fath yn cael ei wneud, mae'n rhaid i ni roi gwybod i chi am y ffaith honno cyn gynted ag y mae'n rhesymol ymarferol;</li> <li>Wedyn mae gennych chi 21 diwrnod ar ôl derbyn yr hysbysiad i ofyn i'r penderfyniad gael ei ailystyried neu fod penderfyniad yn cael ei wneud nad yw'n seiliedig ar brosesu awtomataidd yn unig.</li> <li>Mae'n rhaid i ni gydymffurfio â'ch cais cyn pen 21 diwrnod.</li> </ul>
<p><b>Hawl i gyfyngu ar brosesu</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Hawl yw hon i chi 'flocio' neu atal prosesu eich gwybodaeth bersonol.</li> <li>Mae'r hawl hon yn berthnasol mewn amgylchiadau amrywiol, gan gynnwys lle rydych chi'n herio cywirdeb eich gwybodaeth.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Os oes rhaid i ni gyfyngu ar sut rydyn ni'n prosesu eich gwybodaeth bersonol, byddwn ni'n cael ei storio ond fyddwn ni ddim yn cael ei defnyddio fel arall.</li> <li>Dim ond digon o wybodaeth amdanoch chi y cawn ni ei chadw er mwyn sicrhau bod y cyfyngiad yn cael ei barchu yn y dyfodol.</li> <li>Os ydyn ni wedi datgelu eich gwybodaeth bersonol i eraill, mae'n rhaid i ni</li> </ul>

		(yn amodol ar eithriadau penodol) gysylltu â nhw i roi gwybod iddyn nhw am y cyfyngu ar ei defnyddio.
--	--	---

Os ydych chi eisiau arfer unrhyw un o'ch hawliau, cewch wneud cais drwy gysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion sydd ar waelod yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn.

Os ydych chi'n gwneud cais i arfer unrhyw un o'ch hawliau, mae gennym hawl i ofyn i chi roi unrhyw wybodaeth i ni a all fod yn angenrheidiol er mwyn cadarnhau pw ydych chi.

#### **10. EICH HAWL I DYNNU EICH CYDSYNIAD YN ÔL**

Os ydych chi wedi rhoi eich cydsyniad i ni brosesu eich gwybodaeth bersonol, gan gynnwys gwybodaeth bersonol sensitif, gallwch chi dynnu eich cydsyniad yn ôl unrhyw bryd. I wneud hynny, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion sydd ar waelod yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn.

#### **11. YR AMGYLCHIADAU LLE BYDDWN NI'N ANFON EICH GWYBODAETH BERSONOL Y TU ALLAN I'R DU**

Dydyn ni ddim yn rhagweld y byddwn ni'n anfon eich data y tu allan i'r DU neu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA), fodd bynnag, os bydd angen i naill ai i ni neu ein proseswyr data anfon eich Data y tu allan i'r DU neu'r EEA, yna byddwn ni'n sicrhau bod camau digonol yn cael eu gwneud er mwyn sicrhau'r data a diogelu eich hawliau fel testun data.

#### **12. SUT GALLWCH CHI GYSYLLTU Â NI A PHWY SY'N GORUCHWYLIO EIN BOD YN CYDYMFFURFIO Â'R DDEDDF DIOGELU DATA?**

Gallwch hi gysylltu â ni fel hyn:

<b>Cyfeiriad ebost</b>	<a href="mailto:Eirlys@sirgarethedwardscharity.wales">Eirlys@sirgarethedwardscharity.wales</a>
------------------------	--

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr hysbysiad preifatrwydd hwn, sut rydyn ni'n ymdrin â'ch gwybodaeth bersonol neu os ydych chi'n dymuno gwneud cwyn, cysylltwch â Eirlys Edwards.

### **13. HAWL I GWYNO I SWYDDFA'R COMISIYNYDD GWYBODAETH**

Os nad ydych chi'n fodlon â sut rydyn ni'n gallu ymdrin â chwyn neu os ydych chi'n anhapus â'r ffordd rydyn ni'n defnyddio eich data personol, mae gennych hawl hefyd i wneud cwyn unrhyw bryd i awdurdod goruchwylio'r DU ar gyfer materion diogelu data, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

### **14. NEWIDIADAU I'N HYSBYSIAD DIOGELWCH**

Mae'n bosibl y byddwn ni'n diweddarau'r hysbysiad diogelwch hwn o bryd i'w gilydd. Os ydyn ni'n gwneud unrhyw ddiweddariadau sylweddol, byddwn ni'n darparu hysbysiad preifatrwydd newydd i chi. Hefyd, efallai y byddwn ni'n rhoi gwybod i chi mewn ffyrdd eraill o dro i dro ynghylch sut rydyn ni'n prosesu eich gwybodaeth bersonol.